

## Tasg 1

# Beth yw'r gwaith?

1. Beth, yn eich barn chi, yw teitl y swydd hon?

2. Beth yw'ch barn chi am y swydd? Rhowch resymau dros eich ateb.

3. Darllenwch y brawddegau ac yna ticiwch **Cywir** neu **Anghywir**:

		Cywir	Anghywir
1.	Mae'r person sy'n gwneud y swydd yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser mewn swyddfa.		
2.	Mae'r swydd wedi ei lleoli mewn un ganolfan yn unig.		
3.	Rhaid gwneud rhywfaint o waith ysgrifennu yn y swydd hon.		
4.	Mae cymryd rhan mewn cyfarfodydd yn rhan o'r gwaith.		
5.	Gall y teithio fod yn ddiflas iawn weithiau.		
6.	Rhaid i'r person sy'n gwneud y swydd hon fedru siarad yn rhwydd â phobl.		
7.	Mae mwynhau yn rhan bwysig o'r swydd hon.		
8.	Nid yw'r swydd yn addas i berson ofnus.		

4. Beth yw pwrpas y testun rydych chi newydd ei ddarllen?

perswadio

rhoi gwybodaeth

canmol

difyrru

5. Mae'r arddull yn

ailadroddus

blodeuog

anffurfiol

academaidd

6. Llenwch y bylchau yn y grid hwn.

<b>Unigol</b>	<b>Lluosog</b>
swydd	
cwmni	
	gwestai
	gwersylloedd
	gwledydd
môr	
adroddiad	
	manteision
	anfanteision
	cyfleoedd
	oriau
	meysydd awyr
	rhieni